Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Pecyn Addysg Comisiynydd y Gymraeg

## Cyflwyniad i Athrawon ac Ymarferwyr

Nod y pecyn addysg hwn yw cynnig ystod o adnoddau i athrawon ac ymarferwyr eu defnyddio wrth addysgu dysgwyr Blynyddoedd 5 a 6 ysgolion cynradd yng Nghymru am waith Comisiynydd y Gymraeg a pherthnasedd gwaith y Comisiynydd i'w defnydd nhw, eu ffrindiau a'u teuluoedd o'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Cyflwyniad PwerBwynt i'w ddefnyddio ar lawr dosbarth er mwyn cyflwyno ac annog trafodaeth ynglŷn â gwaith Comisiynydd y Gymraeg a defnydd dysgwyr o'r Gymraeg;
- Pecyn o awgrymiadau o weithgareddau trawsgwricwlaidd i gyd-fynd â'r cyflwyniad PwerBwynt ynghyd ag atodiadau o adnoddau cefnogi a rhestr o adnoddau defnyddiol pellach er mwyn dyfnhau dealltwriaeth dysgwyr o waith Comisiynydd y Gymraeg.

Mae'r pecyn wedi ei gynllunio i gyfateb â gofynion **Cwricwlwm i Gymru**, gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr *ddysgu am eu hunaniaeth ddiwylliannol eu hunain* a *meithrin eu balchder yn eu hymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn i Gymru yn ogystal â'r byd* fel *dinasyddion Cymru ddwyieithog mewn byd amlieithog*.[1]

Mae nifer o'r gweithgareddau yn cynnig cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol Cwricwlwm i Gymru, sef **llythrennedd**, **rhifedd** a **chymwyseddau digidol**, a'u hannog i'w cymhwyso a'u datblygu ymhellach ar draws **chwe maes dysgu a phrofiad** y Cwricwlwm:

- **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**
- **Mathemateg a Rhifedd**
- **Y Celfyddydau Mynegiannol**
- **Y Dyniaethau**
- **Gwyddoniaeth a Thechnoleg**
- **Iechyd a Lles**

1 Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - Hwb (gov.wales)

Un o brif amcanion y pecyn yn ogystal yw rhoi cyfleoedd i ddysgwyr sylweddoli **pedwar diben** Cwricwlwm i Gymru, sydd â'r bwriad o annog pob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu i fod yn:

– ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
– gyfranwyr mentrus, creadigol
– ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
– unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Cynlluniwyd y pecyn i fod yn hyblyg er mwyn galluogi athrawon ac ymarferwyr i'w ddefnyddio mewn modd sy'n addas i'w dysgwyr ac sy'n cyd-fynd â'r amser sydd ganddynt. Mae'r gweithgareddau'n addas ar gyfer dysgwyr hŷn yr ysgol gynradd ynghyd â dygwyr iau yr ysgol uwchradd, a gellir eu haddasu a'u gwahaniaethu yn ôl yr angen.

# Gweithgareddau

## 1. Tasg drafod/ mynegi barn

Rhannwch rai o'r cardiau trafod (Atodiad 1) â'r dysgwyr mewn grwpiau bach a'u hannog i drafod a mynegi barn ynglŷn â'r wybodaeth/ datganiadau/ cwestiynau arnynt, gan ddefnyddio ymadroddion mynegi barn addas.

## 2. Tasgau graddio



- Rhowch y cardiau 'Manteision Dwyieithrwydd' (Atodiad 2) i'r dysgwyr mewn grwpiau bach, yn ogystal â'r un cerdyn gwag sydd hefyd yn Atodiad 2. Gofynnwch iddynt drafod y datganiadau ar y cardiau a dod i benderfyniad ynglŷn ag un fantais arall i'w nodi ar y cerdyn gwag. Yna, gofynnwch iddynt flaenoriaethu'r naw mantais ar ffurf diagram diemwnt gan esbonio a chyfiawnhau eu safbwyntiau.

- Rhannwch nifer o'ch dewis (e.e. wyth, deg neu ddeuddeg) o'r cardiau gwag (Atodiad 3) â'r dysgwyr mewn grwpiau bach. Gofynnwch iddynt drafod a rhestru'r geiriau amlycaf sy'n dod i'w meddwl wrth ystyried yr iaith Gymraeg, cyn cofnodi pob gair ar gardiau unigol a graddio'r cardiau yn ôl trefn pwysigrwydd, ym marn y grŵp.

## 3. Tasgau trawsgwricwlaidd pellach

Meddwl am restr o gwestiynau addas i'w holi i Gomisiynydd y Gymraeg am ei gwaith.

Creu pamffled digidol neu glip fideo syml yn cyflwyno gwybodaeth am waith Comisiynydd y Gymraeg.

Chwarae rôl/ creu deialog o olygfa mewn siop/ caffi lle mae cwsmer a siopwr yn defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd mewn modd cadarnhaol.

Creu poster neu arddangosfa i gyfleu eu balchder o fedru siarad mwy nag un iaith.



Creu hysbyseb digidol neu ysgrifennu araith i annog busnesau preifat/ elusennau i ddefnyddio mwy o Gymraeg.

Trefnu digwyddiad i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol neu'r ardal leol.

Cynnal trafodaeth ynglŷn â manteision siarad Cymraeg. Beth yw'r prif fanteision, yn eu barn nhw? Beth am eu cofnodi ar y cardiau gwag yn Atodiad 3 a'u graddio ar ffurf diagram diemwnt?



Dewis ac ymchwilio i ddigwyddiadau pwysig (cadarnhaol a negyddol) yn hanes yr iaith Gymraeg (e.e. Deddfau Uno 1536 ac 1542-43, hanes y Welsh Not, sefydlu Urdd Gobaith Cymru, darlith Tynged yr Iaith a hanes Cymdeithas yr Iaith, achos y Beasleys, hanes sefydlu S4C, ayyb) a chreu cyflwyniad llafar neu raglen ddogfen ddigidol.

Penderfynu ar eu swydd ddelfrydol ac ystyried pam y gallai'r Gymraeg fod yn fanteisiol i'r swydd honno.

Gwylio'r clip fideo hwn: Hoff Air Cymraeg, cyn trafod a mynegi barn am eu hoff eiriau Cymraeg. Beth am greu rhestr, arddangosfa neu eiriadur o hoff eiriau'r dosbarth?

Dylunio logo 'Defnyddia dy Gymraeg' addas i'w ddefnyddio yn yr ysgol er mwyn annog disgyblion eraill i ddefnyddio cymaint o'u Cymraeg â phosibl.

Creu a chyflwyno sgript Gwasanaeth i'w gyflwyno i weddill yr ysgol i gyfleu eu balchder o fedru siarad Cymraeg a phwysigrwydd strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Gwahodd perchennog busnes preifat lleol i'r ysgol i'w holi ynglŷn â phwysigrwydd a manteision defnyddio'r Gymraeg yn eu busnes.

5

Creu rhestr o hawliau siaradwyr Cymraeg neu reolau siarad Cymraeg i'w harddangos yn y dosbarth/ yr ysgol.

Creu rhestr o 5 peth maen nhw'n eu gwneud o safbwynt hyrwyddo a gwarchod yr iaith Gymraeg, a 5 peth pellach y gallent eu gwneud. Beth am fynd ati i greu 'addunedau' fel dosbarth/ blwyddyn o bethau y caren nhw eu gwneud er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol yn ystod y tymor/ y flwyddyn?

Creu cyflwyniad syml i ddisgyblion iau yr ysgol ynglŷn â phwysigrwydd defnyddio eu Cymraeg cymaint â phosibl yn eu bywydau bob dydd.


Creu cyflwyniad i rieni a llywodraethwyr yr ysgol a'r gymuned ehangach ynglŷn â manteision dwyieithrwydd.

Cyfansoddi rap/ cân syml i gyfleu eu balchder o fedru siarad Cymraeg a'u Cymreictod.

Ymchwilio i a chyflwyno gwybodaeth am ieithoedd lleiafrifol eraill ledled y byd (gwaith ymchwilio, trin data, lleoli ar fap, ac ati). Beth am fynd ati i gymharu'r Gymraeg ag un o ieithoedd lleiafrifol eraill y byd?

# Cardiau Mynegi Barn

Torrwch y cardiau a'u rhannu â pharau/ grwpiau bach o ddysgwyr er mwyn eu hannog i drafod a mynegi barn am y datganiadau ar bob cerdyn.






Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae'r Gymraeg yn "un o drysorau Cymru" sy'n "ein diffinio fel pobl ac fel cenedl".

Ydych chi'n cytuno â'r datganiad hwn? Pam? Rhowch resymau i gefnogi eich safbwynt.

Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n bwysig bod gan bobl Cymru yr hawl a'r rhyddid i siarad Cymraeg os ydyn nhw'n dymuno? Pam? Rhowch resymau i gefnogi eich safbwynt.

Ydych chi'n credu ei bod hi'n bwysig bod siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg cymaint â phosibl yng Nghymru? Pam? Rhowch resymau i gefnogi eich safbwynt.

Beth yw ystyr y gair 'hawl'?

Allwch chi feddwl am hawliau eraill sydd gyda ni yn ein bywydau bob dydd?

Pam bod hawliau'n bwysig, tybed?

Beth yw pwrpas rheolau? Pam bod angen rheolau, yn eich barn chi? Pa fath o reolau ydych chi'n gorfod eu dilyn yn eich bywyd bob dydd? Beth yw effaith y rheolau hynny, tybed?

Fedrwch chi esbonio'n gryno beth yw gwaith Comisiynydd y Gymraeg?

“Mae hi’n bwysig bod siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn medru byw eu bywydau bob dydd trwy gyfrwng y Gymraeg os ydyn nhw’n dymuno.”

Ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad hwn? Pam? Rhowch resymau i esbonio’ch safbwynt.

“Mae nifer o fanteision o fedru siarad Cymraeg.”

Ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad hwn? Pam? Rhowch resymau i esbonio’ch safbwynt.

Faint o gyfle ydych chi’n ei gael i ddefnyddio’r Gymraeg bob dydd? Oes digon/ dim digon o gyfle, yn eich barn chi?

Ydych chi’n gwneud cymaint o ddefnydd ag y gallech chi o’r Gymraeg yn eich bywyd bob dydd?

Beth allwch chi ei wneud er mwyn gwneud mwy o ddefnydd o’r Gymraeg yn eich bywyd bob dydd?

“Nid gwaith un person nac un sefydliad yw gwarchod y Gymraeg. Mae’n gyfrifoldeb ar bob un ohonom i helpu a gwneud ein rhan os ydyn ni am sicrhau dyfodol yr iaith.”

Ydych chi’n cytuno â’r datganiad hwn?

“Mae’r Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru, pa un ai ein bod ni’n siarad Cymraeg ai peidio.”

Ydych chi’n cytuno â’r datganiad hwn?

Cenedl heb iaith, cenedl heb galon.

Beth yw ystyr y dywediad hwn, yn eich barn chi?

Ydych chi’n cytuno â’r geiriau?

# Cardiau Graddio – Manteision Dwyieithrwydd

Torrwch y cardiau. Gofynnwch i'r dysgwyr mewn grwpiau bach i benderfynu ar un fantais ychwanegol i'w hysgrifennu ar y cerdyn gwag, cyn trafod y naw datganiad a'u blaenoriaethu nhw ar ffurf diagram graddio diemwnt.



Mae pobl ddwyieithog yn aml yn fwy sensitif a chreadigol.

Mae pobl ddwyieithog yn aml yn well am ddysgu ieithoedd newydd.

Mae siarad dwy iaith yn ein dysgu ni am fwy nag un diwylliant a hanes.

Mae siarad dwy iaith yn rhoi mwy o gyfleoedd i ni wneud ffrindiau.

Mae siarad dwy iaith yn gwella ein canolbwyntio a'n cof.

Mae pobl ddwyieithog yn aml yn dangos mwy o ddiddordeb a pharch at ddiwylliannau eraill.

**Mae pobl ddwyieithog yn aml yn ei chael hi’n haws canolbwyntio ar fwy nag un dasg ar yr un pryd.**

**Mae siarad dwy iaith yn rhoi mwy o gyfleoedd i ni o ran hobïau a diddordebau.**

Atodiad 3

Atodiad 3

Atodiad 3

# Defnyddia dy Gymraeg

Ugain mlynedd ers yr atalnod yma,
bathodyn bach oren
sy'n neud yn haws
i ni gael siawns
i siarad,
i sgwrsio,
i gwestiynu,
neu i ddysgu ffaith
yn ein hiaith ein hunain.
Ond pwy ydw i
i sôn am sut mae plant
o Ynys Môn i Gaerdydd
yn defnyddio eu Cymraeg
o ddydd i ddydd?

Felly,
yn eu geiriau nhw,
dyma Plant Cymru
i atgyfnerthu neges
ein hiaith ni;

**Mae rhywbeth anhygoel yn fy nghlust,**
**Fel adar yn canu yn y ffos.**
**"Bydd yn falch, bydd yn ddewr, defnyddia dy iaith!"**
**ein llais yw'r offeryn gorau yn y byd!**

**Does dim lot o bobl yn gallu 'neud e',**
**Mae'n galed a "gwahanol"" i rhai,**
**Ond i mi, mae'n swnio'n arbennig.**
**Hebddi, fyddai'r wlad yma ddim yr un peth...**

**Mae fy hyder yn dawnsio ar fy nhafod**
**i brofi i bobl tu allan i'r ysgol**
**Mae gobaith mewn beth dwi'n gallu gwneud**
**a chred mewn beth rydw i'n ei ddweud.**

**Dwi'n ei dal mewn dwylo saff,**
**Does dim cansen na ffon, dim ond angerdd.**
**Roedd popeth yn y Saesneg? Pam?**
**Ond ni yw Dreigiau Maldwyn sydd am ledaenu'r fflam!**

**Dwi'n ei ddefnyddio yn yr YSGOL**
**ond yn Y CAFFI fyswn i'n sgwrsio,**
**yn y siopau, yn mhêldroed, yn yr eglwys neu yn rygbi,**
**Dwi'n ei glywed ar DELEDU ond O, i'w glywed yn NGHAERGYBI!**

**Rhywbeth mor fach**
**Yn ein gwneud ni mor falch.**
**Adra, yr ysgol,**
**unrhyw le tra bod,**
**Defnyddiwn ein collnod!**

**Pan mae pawb o'n cwmpas yn siarad Cymraeg,**
**dwi'n siarad 'fyd.**
**Ac wrth ddysgu geiriau newydd dwi'n teimlo'n ffresh,**
**Fyddai'n braf cael siarad Cymraeg yn y siop,**
**Fyddai'n braf siarad Cymraeg yn Mangladesh.**

**Dw i'n teimlo'n hyderus er yn bryderus yn deud o,**
**ond yn hapus iawn iawn iawn iawn pan dwi'n neud o!**
**Dwi'n gallu egluro fy hunan yn well**
**yn mwa euraidd Caernarfon neu Lerpwl bell!**

**Hoffwn fynd nôl mewn amser yn fy het greadigol**
**morforynion a dreigiau a fi yn eu canol,**
**yn teimlo'n chwedlonol, anturus, drydanol,**
**yn fflipio a throelli gyda ffrindiau'n yr ysgol!**

**Ar lan môr neu ar ben mynydd,**
**'da ni'n siarad a sgwrsio hefo'n gilydd,**
**Wrth nofio, neidio neu gicio pêl,**
**gwên fawr ar ein wyneb, a dyna'r apêl.**

**Mae pawb yn dweud WAW ar beth dwi`n gallu gwneud**
**ar y cae neu ar lwyfan (neu ar Xbox, siawns!)**
**Yn rhannu syniadau neu mewn stori ar bapur,**
**yn gwenu fel llygoden gyda thwlpyn o gaws.**

**Ond mae gwlad heb iaith fel rhwyd heb bêl.**
**Does dim pwynt.**
**Ond os ydw i gyda'n ffrindiau**
**gallen ni ei basio'n nôl ac ymlaen,**
**Yn gweithio fel tîm i gadw'r iaith.**

**O ddarllen llyfrau yn y gwely**
**i'r cyffro cyn sioe yn y theatr,**
**Mae'r pili pala yn fy mola.**
**Dwi'n barod i agor fy ngheg,**
**a dyma fi'n siarad Cymraeg**
**ac yn plymio i fewn.**

Dyma eu Cymraeg nhw.
Geiriau ein cenhedlaeth nesaf yw
fod y Gymraeg
yn iaith fyw,
mae lliw, mae llif, mae ffydd.
O gopa'r Wyddfa
i draethau Gŵyr,
O Glawdd Offa
i Gantre'r Gwaelod,
O bob cwr o'r wlad hon,
gyda balchder yn dy fron,
o dy dafod i dy draed,
Defnyddia dy Gymraeg.


Cymraeg

Bardd Plant Cymru Siôn Tomos Owen gyda chymorth disgyblion ysgolion Amlwch, Cemaes, Cybi, Llanfawr, Llangynnwr, Llanilar, Llanystumdwy, Rhydaman, Santes Tudful, Tirdeunaw, Trallwng, Treganna, Ynyswen


# Adnoddau a chysylltiadau ychwanegol




- **Fideo byr yn seiliedig ar gynnwys y pecyn hwn:**
  Comisiynydd y Gymraeg - y ffeithiau




- **Gwefan Comisiynydd y Gymraeg:**
  Comisiynydd y Gymraeg




- **Gwefan IALC (International Association of Language Commissioners):**
  International Association of Language Commissioners - Home

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner